

# Myfyrdodau ar gyfer y Nadolig a'r Adfent

## Paratowyd gan Jim Clarke

---

Mae'n gyfnod yr Adfent - cyfnod sy'n gyfle inni gychwyn meddwl am ystyr dyfodiad Iesu i'n byd. Beth am estyn kannwyll Adfent neu gannwyll gyffredin a defnyddio'r myfyrdod sy'n dilyn fel unigolion neu fel teulu? Bydd yn gyfle i ail-gyfarwyddo a'r hanesion o gylch geni Iesu ac edrych ymlaen at wir ddathlu'r Wyl.

### **Adfent 1: Angel yn ymweld â Sechareias**

#### **Gweddi:**

Arglwydd Iesu, yn ystod yr Adfent,  
wrth i ni addurno ein cartrefi,  
treulio amser gyda theulu a ffrindiau,  
canu carolau cyfarwydd,  
a chlywed unwaith eto hanes y geni,  
helpa ni i'th geisio di o'r newydd,  
wrth i ni baratoi at dy ddyfodiad y Nadolig hwn. Amen.

### **Darlleniad: Luc 1:5-25**

#### ***Goleuwch y gannwyll Adfent***

#### **Gweddi:**

Un gannwyll wedi ei chynnau yn arwydd o obaith,  
yn disgleirio yn erbyn anobaith,  
yn neidio ac yn dawnsio yn y tywyllwch,  
i ddweud bod Duw ar y ffordd i'n cyfarfod  
ar ffurf baban mewn preseb,  
yn dwyn gobaith, a llawenydd a heddwch i'r byd.  
Gadewch i ni fyw mewn gobaith,  
byw wrth obaith,  
a bod yn arwyddion gobaith  
er mwyn i bawb gael gweld.  
Yn enw Iesu. Amen.

## Adfent 2: Angel yn ymweld â Mair

---

### **Gweddi:**

Dywedodd Ioan Fedyddiwr wrth y bobl i edifarhau.  
Felly trown atat ti, O Dduw,  
i ofyn am faddeuant am ein pechodau.  
Glanhâ ni, adfywia ni ac adnewyddda ni,  
fel y byddwn yn barod i ddathlu'r tymor hwn  
yn yr ysbryd cywir,  
gyda Thi yng nghanol ein dathliadau. Amen.

### **Darlleniad Luc 1:26-38**

#### *Goleuwch y gannwyll Adfent*

### **Gweddi:**

Mae'r gannwyll wedi ei chynnau yn arwydd o obaith,  
yn disgleirio yn erbyn anobaith,  
yn neidio ac yn dawnsio yn y tywyllwch,  
i ddweud bod Duw ar y ffordd i'n cyfarfod  
ar ffurf baban mewn preseb,  
yn dwyn gobaith, a llawenydd a heddwch i'r byd.  
Gadewch i ni ddiolch i Dduw am ein gilydd.  
Gadewch i ni garu ein gilydd,  
fel y gorchmynnodd Crist i ni wneud.  
Gadewch i ni fod yn ddilynwyr ffyddlon i Iesu,  
ac yn llais er daioni yn y byd. Amen.

### Adfent 3: Breuddwyd Joseff

---

#### Gweddi:

Arglwydd Iesu,  
wrth i gyffro'r Nadolig gynyddu,  
helpa ni i gofio'r rheswm dros y dathlu,  
yng nghanol y tinsel a'r goleuadau llachar,  
y siopa a'r bwyd arbennig.  
Oherwydd daethost i roi llawenydd,  
gobaith a heddwch,  
a'r rhodd fwyaf un: cariad. Amen.

#### Darlleniad: Mathew 1:18-25

Roedd Mair, wedi cael ei haddo i fod yn wraig i Joseff. Ond cyn iddyn nhw briodi a chael rhyw, dyma nhw'n darganfod fod yr Ysbryd Glân wedi ei gwneud hi'n feichiog. Roedd Joseff yn ddyn da a charedig. Doedd e ddim eisiau gwneud esiampl ohoni a'i chyhuddo hi'n gyhoeddus, felly roedd yn ystyried yn dawel fach i ganslo'r briodas. Roedd wedi bod yn meddwl am hyn pan gafodd freuddwyd: gwelodd angel Duw yn dod ato a dweud wrtho, "Joseff fab Dafydd, paid petruso mynd â Mair adre i fod yn wraig i ti, am mai'r Ysbryd Glân sydd wedi gwneud iddi feichiogi. Bachgen fydd hi'n ei gael. Rwy't i roi'r enw Iesu Ref iddo, am mai fe fydd yn achub ei bobl o'u pechodau." Digwyddodd hyn er mwyn i beth ddwedodd Duw drwy ei broffwyd ddod yn wir: "Edrychwch! Bydd merch ifanc sy'n wryf yn feichiog ac yn cael mab. Bydd y plentyn yn cael ei alw yn Emaniwel" (Ystyr Emaniwel ydy "Mae Duw gyda ni.") Pan ddeffrodd Joseff, gwnaeth beth roedd angel Duw wedi ei ddweud wrtho. Priododd Mair, ond chafodd e ddim rhyw hefo hi nes i'w mab gael ei eni. A rhoddodd yr enw Iesu iddo.

#### Goleuwch y gannwyll Adfent

#### Gweddi:

Mae'r gannwyll wedi ei chynnau yn arwydd o farn,  
yn disgleirio yn erbyn popeth sy'n ddrwg,  
yn neidio ac yn dawnsio yn y tywyllwch,  
i ddweud bod Duw ar y ffordd i'n cyfarfod  
ar ffurf baban mewn preseb,  
yn dwyn gobaith, a llawenydd heddwch i'r byd.  
Yr Adfent hwn, gweddiwn yn arbennig dros:  
y rhai sy'n ymdrechu i gael dau ben llinyn ynghyd;  
y rhai a fydd yn gwario mwy na allant eu fforddio;  
y rhai sy'n canfod eu hunain yn unig;  
y rhai a fydd yn cael y Nadolig yn amser poenus.  
Oherwydd daethost i ddod â newyddion da  
am loches i'r digartref, iachâd i'r gwael,  
a ffordd well i bob un ohonom gael byw. Amen.

## Adfent 4: Mair yn ymweld ag Elisabeth

---

### Gweddi:

Arglwydd Iesu,  
wrth i ni ddechrau dathlu'r Nadolig,  
bendithia ein holl ddathlu:  
y gwledda,  
rhoi a derbyn yr anrhegion,  
a cael bod gyda'n teulu a'n ffrindiau.  
Dyro i ni oll heddwch o'm mewn,  
a llawenydd, a chariad tuag at ein gilydd. Amen.

### Darlleniad: Luc 1:39-45 (46-55)

Cyn gynted ag y gallai, dyma Mair yn mynd i'r dref yng nghanol bryniau Judea, lle'r oedd Sachareias ac Elisabeth yn byw. Pan gyrhaeddodd y tŷ dyma hi'n cyfarch Elisabeth, a dyma faban Elisabeth yn neidio yn ei chroth hi. Cafodd Elisabeth ei hun ei llenwi â'r Ysbryd Glân pan glywodd lais Mair, a gwaeddodd yn uchel: "Mair, rwyt ti wedi dy fendithio yn fwy nag unrhyw wraig arall, a bydd y baban rwyt ti'n ei gario wedi ei fendithio hefyd! Pam mae Duw wedi rhoi'r fath fraint i mi? — cael mam fy Arglwydd yn dod i ngweld i! Wir i ti, wrth i ti nghyfarch i, dyma'r baban sydd yn fy nghroth i yn neidio o lawenydd pan glywais dy lais di. Rwyt ti wedi dy fendithio'n fawr, am dy fod wedi credu y bydd yr Arglwydd yn gwneud beth mae wedi ei ddweud wrthot ti."

### *Goleuwch y gannwyll Adfent*

### Gweddi:

Mae'r gannwyll wedi ei chynnau yn arwydd o ryfeddod,  
yn disgleirio er mwyn i bawb cael gweld ei ogoniant,  
yn neidio ac yn dawnsio yn y tywyllwch,  
i ddweud bod Duw ar y ffordd i'n cyfarfod  
ar ffurf baban mewn preseb,  
yn dwyn gobaith, a llawenydd a heddwch i'r byd.

Fel Mair,  
canwn dy glod, O Dduw,  
am droi'r byd ben i waered:  
trwy ofalu am y tlawd,  
a gwrando ar y rhai sydd wedi eu hanwybyddu,  
a chodi pobl i fyny  
sy'n teimlo nad ydynt yn bwysig.  
Diolch i ti am ddangos i'r pwerus  
sut beth yw gwasanaethu,  
ac am ddysgu ni sut i rannu. Amen.

## Adfent 5: Dydd Nadolig

---

### Gweddi:

Iesu, brenin heddwch a thangnefedd,  
mae'n ben-blwydd arnat heddiw.  
Eto ni yw'r rhai sy'n derbyn anrhegion.  
Helpa ni, wrth i ni ymgynnull, i roi i ti ein hanrhegion  
o amser a chariad heddiw. Amen.

### Darlleniad: Luc 2:1-20

Tua'r un adeg dyma Cesar Awgwstws yn gorchymyn cynnal cyfrifiad drwy'r Ymerodraeth Rufeinig i gyd. Roedd pawb yn mynd adre i'r trefi lle cawson nhw eu geni, i gofrestru ar gyfer y cyfrifiad. Felly gan fod Joseff yn perthyn i deulu'r Brenin Dafydd, gadawodd Nasareth yng Ngalilea, a mynd i gofrestru yn Judea — ym Methlehem, hynny ydy tref Dafydd. Aeth yno gyda Mair oedd yn mynd i fod yn wraig iddo, ac a oedd erbyn hynny'n disgwyl babi. Tra roedden nhw yno daeth yn amser i'r babi gael ei eni, a dyna lle cafodd ei phlentyn cyntaf ei eni — bachgen bach. Dyma hi'n lapio cadachau geni yn ofalus amdano, a'i osod i orwedd mewn cafn ar gyfer bwydo anifeiliaid. Doedd dim llety iddyn nhw aros ynddo.

Yn ardal Bethlehem roedd bugeiliaid allan drwy'r nos yn yr awyr agored yn gofalu am eu defaid. Yn sydyn dyma nhw'n gweld un o angylion yr Arglwydd, ac roedd ysblander yr Arglwydd fel golau llachar o'u cwmpas nhw. Roedden nhw wedi dychryn am eu bywydau. Ond dyma'r angel yn dweud wrthyn nhw, "Peidiwch bod ofn. Mae gen i newyddion da i chi! Newyddion fydd yn gwneud pobl ym mhobman yn llawen iawn. Mae eich Achubwr wedi cael ei eni heddiw, ym Methlehem. Ie, y Meseia! Yr Arglwydd! Dyma sut byddwch chi'n ei nabod e: Dewch o hyd iddo yn fabi bach wedi ei lapio mewn cadachau ac yn gorwedd mewn cafn bwydo anifeiliaid."

Yn sydyn dyma filoedd o angylion eraill yn dod i'r golwg, roedd fel petai holl angylion y nefoedd yno yn addoli Duw! "Gogoniant i Dduw yn y nefoedd uchaf, heddwch ar y ddaear islaw, a bendith Duw ar bobl." Pan aeth yr angylion i ffwrdd yn ôl i'r nefoedd, dyma'r bugeiliaid yn dweud wrth ei gilydd, "Dewch! Gadewch i ni fynd i Fethlehem, i weld beth mae'r Arglwydd wedi ei ddweud wrthon ni sydd wedi digwydd." Felly i ffwrdd â nhw, a dyma nhw'n dod o hyd i Mair a Joseff a'r babi bach yn gorwedd mewn cafn bwydo anifeiliaid. Ar ôl ei weld, dyma'r bugeiliaid yn mynd ati i ddweud wrth bawb beth oedd wedi digwydd, a beth ddwedodd yr angel wrthyn nhw am y plentyn yma.

### *Goleuwch y gannwyll Adfent*

### Gweddi:

Iesu, plentyn y preseb,  
gyda Mair a roddodd enedigaeth i ti,  
gyda'r lletywr a roddodd le i ti,  
gyda Joseff a'th amddiffynnodd ti,  
gyda'r anifeiliaid a wylodd drosot ti,  
gyda'r angylion a ganodd amdanat ti,  
gyda'r bugeiliaid a redodd atat ti,  
gyda'n brodyr a'n chworydd ar hyd y byd,  
rhown groeso i ti.  
Iesu, Gwardwr y byd,  
rhown groeso i ti. Amen.

## Gweddi Nadolig:

---

Arglwydd,  
gweddiwn dros y rhai y bydd y Nadolig hwn yn llawn atgofion trist,  
yn hytrach na rhai hapus;  
dros y rhai a fydd yn treulio'r Nadolig ar ei pen eu hunain,  
am ba bynnag rheswm;  
dros ffoaduriaid, a'r rhai yn ffoi oddi wrth drais ac anghyfiawnder,  
a'r rhai nad oes ganddynt famwlad mwyach;  
dros y rhai o bedwar ban byd sydd a'r dasg o wireddu cytundeb ar newid hinsawdd.

Duw'r bydysawd a'r sêr,  
wrth i'r Nadolig nesáu,  
a ninnau'n barod i nodi achlysur dy ddyfodiad cyntaf i'r byd,  
helpa ni i ddirnad rhyfeddod plethiant bywyd,  
y rhyfeddol a'r dinistriol, y trais a'r cariad,  
ac o ddeall rhyfeddod dy rodd i ni yn dy fab Iesu,  
gwna ninnau yn barotach o roi ein hunain dros eraill.

*Nid er ei fwyn ei hunan  
Y daith i lawr o'r nef,  
Ond rhoi ei hun yn aberth dros eraill  
Wnaeth Efe.*

O na bawn ni fel Efe'r Nadolig hwn...  
ac wedi'r Nadolig...  
oherwydd fel dywed Mererid Hopwood yn ei cherdd 'Gwaith y Nadolig':

Mae yna alw am gast drama'r geni  
Drwy'r flwyddyn i weithio yn gudd,  
Am fod gwaith y Nadolig yn anodd –  
Yn ormod o waith o un dydd.

Boed bendith gyfoethog yr Ŵyl yn brofiad i bawb ohonom,  
ac i ysbryd y Crist byw fod yn symbyliad inni ddal ati  
i gyhoeddi ei Efengyl a'i byw bob dydd er mwyn eraill. Amen.

## Myfyrdod Nadolig

---

Ydych chi'n chwilio am garol newydd?  
Beth am roi cynnig ar yr addasiad Nadoligaidd hwn o'r emyn  
'O Nefol addfwyn Oen' o *Ganeuon Ffydd*?

O Arglwydd Iesu Grist  
a ddaethost lawr o'r nef  
yn geidwad dynol ryw,  
i breseb Bethle'm dref:  
dy ddawn a'th ras a'th gariad drud  
caiff lanw'n nef, a llanw'n byd.

Bugeiliaid ddaeth o'r maes  
i geisio prynwr byd;  
y brawd, y ceidwad mwyn  
Emaniwel ein ffydd:  
'does enw i'w gael o dan y sêr  
yn unig ond ei enw ef.

Ymgrymwn bawb i lawr  
gerbron dy sanctaidd grud;  
down atat Dri yn Un  
i'th ganlyn draws y byd:  
Rhown barch a bri; rhown fawl a chlod  
hyd byth i'th enw'n Harglwydd Iôr.

### Darlleniad: Matthew 1:1-25

#### Myfyrdod yn seiliedig ar ddeunydd Roots:

Pan fyddwn ni'n cynnwys elfennau annisgwyl yn hanes y Nadolig, tybed i ba raddau yr ydym yn eu cofleidio ac yn credu'r hyn a elwir ôl-wirionedd, neu 'post truth' chwedl geiriadur Rhydychen. Y term 'ôl-wirionedd yw'r gair mwyaf newydd yn ddiweddar yn ôl y gwybodusion.

Rydym yn byw mewn byd cymhleth a chyd-gysylltiedig iawn, ble mae newyddion - gwir neu gau - yn cyrraedd ni mewn eiliadau. Dywed geiriadur Rhydychen fod 'ol-wirionedd' yn perthyn i neu'n dynodi amgylchiadau lle mae ffeithiau gwrthrychol yn cael llai o ddylanwad ar farn gyhoeddus pobl yn hytrach na rhyw apeliadau at emosiwn a chredo personol. Fe all y term ôl-wirionedd fod yn hynod oeraidd ac amheronol gan ei fod yn awgrymu nad yw'r gwirionedd o bwys bellach. Cewch glywed a chredu beth a fynnon am bopeth!

Ond gwelsom effaith hyn yn ddiweddar wrth ddwyn i gof yr etholiadau yn yr UDA ac yma ym Mhrydain, a'r ymgais i hacio a rhannu newyddion ffug ar y cyfryngau cymdeithasol, er mwyn newid meddyliau pobl a'u perswadio i bleidleisio mewn ffordd arbennig. Gwelsom fod yna gagendor mawr rhwng y gwir ffeithiau a'r hyn yr oedd pobl yn barod i gredu. Yn wir gall yr un peth sefyll yng nghysgod yr ymdriniaethau o hanesion y Nadolig a'r geni gwyrthiol ym mherthynas yr Efengylau. Bydd ysgolion ac eglwysi weithiau yn adrodd yr hanesion mewn ffyrdd sydd yn cyfuno dwy wedd

neu ddwy stori hollol wahanol wrth i ni droi nôl a blaen drwy'r gwahanol Efengylau. Ac weithiau, mae'n anodd gweld rhwng y niwloedd beth sy'n wir a beth sy'n fyth.

Dywedir fod y term 'gwirionedd' yn ymddangos rhyw 29 o weithiau yn yr Efengylau, ond dim ond Efengyl Ioan sydd yn cofnodi cwestiwn enwog Peilat, "Beth yw'r gwirionedd? (Ioan 18:38)

Ac er mor dda fu'r dramâu a'r gwasanaethau Nadolig yn ysgolion ac eglwysi ein bro, tydi hi ddim yn hawdd cysoni hanes geni'r Iesu fel y mae yn Efengylau Mathew a Luc. Ond a ydy hynny o bwys mawr? Ydy hi o dragwyddol bwys fod yna wahaniaethau mawr yng nghronicleau geni Iesu? Ydy hi ots pa mor hanesyddol gywir ydyn nhw? Onid ydy'r newyddion da yn Ioan am 'y Gair wedi dod yn gnawd' yn bwysicach na ffeithiau manwl a chywir y ddwy stori?

Nid yw'r Llithiadur yn cynnwys adnodau agoriadol Efengyl Mathew (1:1-17). Gallwn ni ond dychmygu beth petai awdur Mathew – neu awdur Luc wedi cofnodi achres wahanol i'r Iesu, gan gredu glo mân y goeden deuluol yn llythrennol gywir. (Luc 3:23-38)

Un ffaith ddiddorol yn rhestr Mathew yw'r enwi a ddigwydd o bum merch: Tamar; Rahab a Ruth; gwraig Uriah (Bathsheba) a Mair. Ar wahân i Mair roedd gan y rhain i gyd hanes diddorol yn perthyn iddynt. Ond pam enwi'r pump yma – gan fod rhai, megis Ruth o wlad Moab yn sarnu tipyn ar genedligrwydd bur yr hanes beth bynnag?

Yna does dim son yn Mathew am gyfrifiad, na hyd yn oed lleoliad y digwyddiadau y clywsom amdanynt yn y darlleniad. Ond o ddilyn fersiwn Luc, mae'n bosib fod Mair a Joseff yn teimlo iddynt gael eu dal ym magl eu hamgylchiadau. A Mathew wedyn sydd yn cronicle hanes y dianc o grafangau Herod, (2.13-18) yn dilyn ymweliad y seryddwyr. Caiff y teulu bach eu gorfodi i symud yn bell bell draw oddi wrth eu ceraint eu cartref a'u cyfeillion... cânt eu gyrru i fod yn ffoaduriaid.

Sylwch – does dim son yn Efengyl Mathew am unrhyw angel, does dim angel yn ymddangos i Mair er mwyn rhybuddio o'r hyn sydd ar ddigwydd; ond y mae Joseff yn derbyn neges o'r nef gan Dduw yn ei annog i sefyll gyda Mair. Dywed rhywrai weithiau fod rhai dynion yn teimlo iddynt gael eu dal yn gaeth pan ddaw'r newydd fod eu cariadon yn feichiog. Mae'n bosib eich bod yn meddwl fy mod yn rhyfygu wrth awgrymu ffasiwn beth; ond tybed nad oedd Joseff yn teimlo felly wedi canfod fod Mair ei ddyweddi yn feichiog ac nid ef oedd y tad! Os oedd yntau yn sefyll gyda hi mi fyddai'n gymaint anos iddo berswadio ei deulu a'i gyfeillion ei fod yn gwneud y peth iawn!

Wyddoch chi mae'n anodd cael eraill i'n cymryd ni o ddifrif weithiau? Sut ydyn ni'n llwyddo i wneud hynny? Pan gyrhaeddodd Paul ddinas Rhufain, yr oedd am i bobl Rhufain wrando arno o ddifrif, fel y byddai'r neges yn llwyddo a'r Efengyl yn cael ei chlywed led led Gorllewin Ewrop. Doedd o ddim yn gallu pwysu ar gysylltiadau cenhadol eraill gan nad oedd yr Eglwys yn Rhufain wedi codi o ymgyrch genhadol flaenorol. Mi fyddai wedi gallu dweud pob math o bethau wrthyn nhw er mwyn dal eu sylw nhw, gan ddisgrifio'n fanwl hanes ei dröedigaeth bersonol a pha fodd yr oedd wedi cynorthwyo i rannu'r Efengyl. Ond y mae'r geiriau ar gychwyn llythyr Paul yn ymwneud a'r Iesu yn hytrach nag ef ei hun.

Rydan ni ond megis dyddiau o ddydd Nadolig. Beth petaem ni am ennyd yn gosod heibio'r asyn, y lletywr, y preseb, y bugeiliaid a'r doethion a chanolbwytio ar beth y mae Paul yn credu sy'n arwyddocaol am yr Iesu hwn? Beth wedyn fyddai byrdwn ein bodolaeth a'n cenhadaeth fel eglwys? Ystod y degawdau diwethaf ac yn arbennig ar droad y milrif gwelsom gynnydd anhygoel yn hanes



ein gwlad ac ymdrechion i warchod ein treftadaeth a'n gorffennol. Gwelwyd tyfiant a diddordeb anghoel mewn safleoedd megis amgueddfeydd awyr agored megis Sain Ffagan a Llanberis, a llefydd eraill megis Beamish, Blists Hill ac Ironbridge ac ati i nodi ond rhai. Gwelsom gynnydd mewn rhaglenni megis 'Who do you think you are' sy'n annog pobl i ymchwilio i'w hachau a'u gwreiddiau. Mae *Ancestry DNA* yn ein hannog i geisio prawf DNA fel y gallwn gael gwybod o ble y daethom go iawn. Mae'n cynnig cymorth i'n helpu i ddeall pwy ydym ac o ble y daethom ac i bwy yr ydym yn perthyn. Mae'n cynnig cyfle inni archwilio a deall ein hunain yn well. Ond fe all hyn i gyd ein dargyfeirio oddi wrth y gwir gwestiynau y dylid bod yn eu gofyn ynglŷn a phwy ydym, ble ydym ar hyn o bryd ac i ba le yr ydym yn mynd i'r dyfodol.

Gellir dweud yr un peth am ein perthynas a'r Gair – ein perthynas gyda'r Ysgrythurau. Ceisiodd Paul fwrw trem yn ôl ar achau'r Iesu – ar un wedd roedd am drafod cyfraniad Duw i'r broses, ac ar y llaw arall ei achau dynol. Ond nid dyna'r oll, yn arbennig felly i'r genhedlaeth o Gristnogion nad oeddynt yn rhan o unrhyw draddodiad Iddewig. Peidiwch â chamsyniad am funud nad oedd yr hanes yn allweddol; ond roedd ond yn allweddol i'r graddau fod Iesu yn cynnig realiti ffydd newydd gobaith newydd i bobl Dduw. Roedd dyfodiad Iesu yn cadarnhau cyflawniad yr hen broffwydoliaethau am ddyfodiad y Meseia – a hynny yn cynnig cychwyn newydd i bawb ohonom.

Mae dyfodiad y Meseia a'r addoli a'r canu carolau sydd ynghlwm wrth hynny yn rhywbeth sydd yn esgyn tu hwnt i ddirnadaeth dyn. Ac eto, fe allem ni, fel Paul, ganfod pwrpas newydd i'n cenhadaeth ym mywyd a gweinidogaeth Iesu fyddai'n llawer iawn mwy arwyddocaol ac effeithiol na dim y gallwn ni ei ddweud am ein profiadau, argyhoeddiadau a'n gobeithion amdanon ein hunain yng nghyd-destun y Nadolig a'i neges.

Pan ysgrifennodd Mathew ei Efengyl fe wnaeth hynny gan gadw un llygad ar y diwedd. Dyna paham y bu iddo ddyfynnu proffwydoliaeth Eiseia ynglŷn a'r plentyn yn dwyn yn enw 'Emaniwel'. Yn ei eiriau ar ddiwedd yr Efengyl y mae Mathew yn dyfynnu'r Iesu yn siarad gyda'i ddisgyblion, gan eu hannog, "Byddaf gyda chwi yn wastadol, hyd ddiwedd amser (Mathew 28:28).

Dyma gilbyst yr Efengyl sydd yn cynnig darlun hollol glir inni o ddwyfoldeb yr Iesu yn gwbl ddiarnheul. Pan ddaw Duw i'n cynorthwyo, i'n cyfarfod, i'n gwneud ni'n bobl y newyddion da, fe all fod yn brofiad anodd, annymunol, anghyfarwydd ac anghyffredin. Nid yw Duw yn ateb ein gweddïau fel y dymunem bob amser, nac mewn ffyrdd yr ydym yn eu dymuno, yn disgwyl nac yn darogan.

Dyna yn sicr brofiad Joseff – y gŵr cyfiawn. Dwn i ddim a oedd o'n teimlo'n well wedi ymweliad yr angel/negesydd mewn breuddwyd, wedi'r cyfan doedd dim wedi newid, roedd Mair yn dal yn feichiog. Ond tybed, fel ninnau weithiau nad oedd yn teimlo fod Duw yn ei ras a'i drugaredd wedi dangos iddo fod ganddo afael sicrach fry ar y sefyllfa. Tybed pa wahaniaeth wnaeth hynny iddo. Dywed Mathew wrthym fod Joseff yn gyfiawn ac yn gymeradwy, a'i fod yn ymddiried yn llwyr yn Nuw yng nghanol ei amgylchiadau – amgylchiadau ddaru ddwysau yn arw wedi'r geni a'r teulu yn dod yn ffoaduriaid yn yr Aifft; ac maen siŵr y bu hynny yn newyddion da i Dduw a threfn ei iachawdwriaeth.

Mae'r Nadolig yn dod gyfeillion: darllenwch, a ddathlwch a chyhoeddwch fod y Crist wedi ei eni o'r newydd yng nghalonau ei bobl eto'r Nadolig hwn. Cofiwch fod y cyfan hyn yn Newyddion Da Duw i 'ddynion (a merched, pobl ifanc a phlant) 'sydd wrth ei fodd'. Y mae'r Iesu, gyda ni ein Emaniwel! Ac y mae hynny yn ein hatgoffa fod Duw sydd wrth y llyw bob amser, gyda phawb, ymhob lle.

## Neges ar gyfer bore Nadolig

---

### Daeth y Gair yn gnawd – Ein gobaith mewn gwirionedd

#### Darlleniadau:

Eseia 9.2-7;

Luc 2.1-14,(15-20)

Trown at broffwydoliaeth Eseia ar gyfer ein myfyrdod Nadoligaidd eleni. Y mae neges farddonol Eseia a'i ddisgrifiad o'r tywyllwch yn troi yn oleuni yn cynnig gobaith gwirioneddol i'n byd heddiw.

Yn ystod y dyddiau cyn y Nadolig daw sawl stori newyddion digon tywyll eu natur i'n sylw fel arfer, ac oherwydd hynny y maen andros o bwysig myfyrio ar oleuni a gobaith stori'r Nadolig Cyntaf, a cheisio byw yn y goleuni y daw'r Iesu i'n byd o gysgodion.

Rhai blynyddoedd yn ôl tra roedd siopwyr yn mwynhau goleuadau a hwyl y farchnad Nadolig, fe syrthiodd rhyw dywyllwch ofnadwy dros y dathliadau ym Merlin wrth i nifer gael eu lladd gan lori yn cael ei yrru gan derfysgwr. I'r rhai hynny oedd yn dystion i erchyllder y Brietscheidplatz fe chwalwyd goleuni bywydau gymaint o bobl gan ryw dywyllwch ofnadwy. Ond, hyd yn oed yng nghanol y tywyllwch hynny gwnaeth gyrrwr gwreiddiol y lori a anafwyd yn ddifrifol gan y terfysgwyr, lwyddo i ddargyfeirio llwybr y cerbyd yn ôl i ganol y ffordd rhag i ychwaneg golli eu bywydau. Fe aberthodd ei hunan er mwyn eraill ac mae osgo terfynol y lori yn dweud y cyfan rhywsut. Do yn wir, 'rhoi ei hun yn aberth dros eraill wnaeth efe, megis Un arall yr ydym yn dathlu ei enedigaeth heddiw.

Ond roedd penawdau'r papurau cenedlaethol a rhyngwladol yn dywyll ac yn ddarllen trwm iawn. Yr un pryd gwelsom helyntion pobl Aleppo a manau eraill lle mae rhyfel a thrais yn y newyddion, a delweddau o drigolion wedi eu dychryn gan anynoldeb gelynydd wrth iddynt geisio dianc rhag y gyflafan. A gadewir ninnau ar y llinell derfyn yn rhyfeddu ac yn synnu at y tywyllwch eithaf sydd wedi goddiweddyd amgylchiadau ein cyd-ddyn, gyda bomio ysbytai, ysgolion a chaeau chwarae i blant!

Byddwn yn teimlo droeon fod goleuni'r byd yn cael ei draflyncu rhywsut, a grymoedd y tywyllwch ar waith yn fwy nag erioed, Ac eto y mae hanes y Nadolig cyntaf am faban bach yn cael ei eni i ddau yn eu harddegau ym Mhalestina'r ganrif gyntaf yn galon ac yn graidd ein dathliadau.

Yn wir, canrifoedd cyn Crist bu Eseia ei hun yn proffwydo mewn dyddiau digon tebyg, ac Israel wedi colli ei ffordd. Collodd y genedl ei thiroedd, ei ffydd a'u ffordd. Ond er hynny fe ddaeth Eseia i broffwydo am rywbeth cwbl chwyldroadol – fe lefarodd am y goleuni: goleuni dwyfol, goleuni sanctaidd – goleuni'r Meseia! Mae'n ddatganiad pwerus, yn ddatganiad allweddol i ddyfodol y Genedl: mae'n proffwydo y byddai'r bobl rheiny a fu unwaith yn rhodio mewn tywyllwch yn cael gweld goleuni mawr newydd yn dod atynt drwy ryfeddod genedigaeth mab bychan.

Ond nid unrhyw enedigaeth fyddai hon, byddai'n enedigaeth wyrthiol, gydag enwau brenhinol yn cael eu defnyddio i ddisgrifio'r plentyn: 'Cynghorydd Rhyfeddol', 'Y Duw cadarn', 'Tad Bythol' a 'Thywysog Tangnefedd'. Y mae priodoleddau arbennig iawn gan bob enw yma, s'yn disgrifio dwyfol osodiad y brenin newydd. Dywed Eseia y bydd brenhiniaeth hwn yn para am byth. Gwaith Duw

ydyw yn ceisio dyrchafu ei broffwyd. Gwaith Duw ydyw er mwyn ceisio gwarchod ei orsedd – Gorsedd y Brenin Dafydd.

Ac felly, wrth i'r baban gael ei eni yn nhref fechan Bethlehem a'i osod mewn preseb gan ei fam ifanc, fe ddaeth y goleuni nôl i'r byd - goleuni anniffoddadwy, parhaol a thragwyddol. Fe weithredodd Duw yn gadarnhaol i sicrhau y byddai'r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch unwaith yn rhagor.

Wrth wylïo'r sgrin fach – y newyddion a'r holl apeliadau elusennol a wneir yn ystod cyfnod yr hysbysebion mae'n anodd i ni estyn allan a chyrraedd pawb sydd mewn angen; mae'n anodd, er y cydymdeimlad, i ymateb i bob apêl. Ac er na allwn ni helpu pawb sydd mewn angen, fe allwn ni fod yn oleuni, a dyrchafu'r goleuni a gweithredu mewn ffyrdd fydd yn dwyn ychydig o oleuni dwyfol i fywydau rhywrai. Gallwn chwifio baner cariad a gobaith wrth inni ddal ati i gredu yn Nhywysog ein tangnefedd. Gallwn wrthsefyll yn gadarn yn erbyn grymoedd y tywyllwch heddiw, gan ddod â goleuni ein ffydd i fannau tywyll ac anodd ein bywydau'n hunain, gan wneud hynny yn enw ac yng gobaith y plentyn Iesu, a aned i ni ddwy fil o flynyddoedd yn ôl.

Tywysog Tangnefedd – dyna chi deitl trawiadol, teitl arwyddocaol – teitl pell gyrhaeddol! Mae'n em yng nghanol proffwydoliaeth Eiseia. Ond bu eleni eto yn flwyddyn llawn terfysgoedd a rhyfeloedd, a phrin fod dylanwad yr enw 'Tywysog Tangnefedd' wedi crafu wyneb y tir yn werth geisio gwrthweithio yn erbyn y dylanwadau dinistriol hyn. Ond mae'n enw diddorol ac mae'n bwysig myfyrio ar y gwahanol agweddau ar yr addewid o heddwch sydd ymhlyg yn ei enw. Llefara'r Hebraeg am y 'Shalom', yr enaid cyflawn – y person crwn. Trwy fywyd, marwolaeth ac atgyfodiad Iesu mae'n bosib ein hadfer i gyflwr o heddwch a thangnefedd gyda Duw, ein Creawdwr a'n cynhaliwr. Yn wir rhestrir heddwch neu dangnefedd ymhlith un o 'Ffrwythau'r Ysbryd' yn llythyr Paul at y Galatiaid, a'r tangnefedd hwnnw felly yw'r prawf fod Duw ar waith yng nghalon y crediniwr.

Y mae Efengyl Luc yn creu darlun o oleuni yn y nefoedd yn goleuo tywyllwch y nos uwchben Bethlehem. Mae'r goleuni yn drawiadol, ac adroddir am angyllion yn moli Duw: 'Gogoniant yn y goruchaf? Angyllion yn moli ac yn clodfori – ydych chi'n gwneud hynny yn ddigon aml? Ydw i? Dyna chi gwestiwn i ni ei ystyried ar ddydd Nadolig!

Rwy'n gobeithio fod y byd yn gallu gweld a gwybod pwy ydyn ni, o ganlyniad i'n hymateb i ddyfodiad Iesu i'n plith, ac o ganlyniad i'n cyfraniad fel eglwys i fywyd y pentref a'i thrigolion.

Beth am inni ar drothwy blwyddyn newydd droi at Dduw, awdur pob goleuni a gweddïo y geiriau hyn:

Tyrd atom ni, o grëwr pob goleuni,  
tro di ein nos yn ddydd.  
pâr inni weld holl lwybrau'r daith yn gloywi  
dan lewyrch gras a ffydd. Amen.

## Myfyrdod yn dilyn y Nadolig

---

### Gwelsom ei seren Ef ar ei chyfodiad a daethom i'w addoli

Sawl carol y bu i ni eu canu sy'n cyfeirio at y seren uwch Bethlehem eleni? Y mae ail bennod Efengyl Mathew yn agor ac yn cloi gydag eiliadau allweddol i'n cyfareddu a'n cyfarwyddo ar ein llwybr at yr Iesu. Dechreuir drwy son am seren newydd a ganfuwyd gan y doethion, cyn cloi gyda'r freuddwyd yn rhybuddio hwy i beidio â dychwelyd at Herod. Mae'n hollol amlwg fod y doethion yn credu ac am ddilyn neges y seren a'r freuddwyd, ac y mae popeth a ddatguddir iddynt yn arwain y ffordd ymlaen. Rwy'n hoff iawn o'r doethion, oherwydd maent yn esiampl berffaith o bobl y byd yn penderfynu ymateb yn ddi-gwestiwn i air Duw. Maent yn ymateb i bob datguddiad ac arwydd a gawsant, ac o ganlyniad i'w ffydd, yn cael cyfarfod â Brenin yr Iddewon. Sut byddwn ni'n ymateb i'r arwyddion a'r anogaethau a ddaw inni gan Dduw yn ystod y flwyddyn newydd. Ydan ni'n effro, ac yn ddisgwylgar? Ydan ni'n barod i gychwyn ar daith newydd gyda Duw?

Trwy'r oesau, bu astudio'r sêr yn rhan allweddol o sylfaen credoau a chrefyddau mawr y byd. Gallwn ddadlau fod y seren y sonnir amdani ym Mathew 2, yw'r seren enwocaf erioed. Mae'n gwbl allweddol i hanes y Nadolig cyntaf, ac wedi bod yn rhan allweddol o ddatliadau Cristnogol ers cyn cof. Erbyn hyn, y mae astudio'r sêr gan wyddonwyr ein dyddiau ni yn agor ffenestri yng ngwead y bydysawd sydd yn rhyfeddu ac yn cyfareddu plant dynion – yn union fel y gwnaeth y seren hon ym mhrofiad y doethion ganrifoedd yn ôl. Ond beth a wnawn ni o'r seren? Wedi'r cyfan, nid ydym yn astroffisegwyr fel y doethion gynt. Ond y mae'r hanes hwn yn allweddol ac yn ceisio cyfleu rhywbeth pwysig am arfaeth Duw i ni. Daw'r doethion o'r 'dwyrain', draw i Fethlehem ac nid i Jerwsalem. Yno y cafwyd fod genedigaeth 'frenhinol' newydd ddigwydd. Tydi'n rhyfeddol fel bod cyfeiriad a chynllun arfaeth Duw weithiau yn wahanol i gynllun a bwriad dyn? Hynny yw, y mae ffocws Duw weithiau yn wahanol iawn i'r hyn a ddisgwylir gennym ni. Tybed beth fydd ffocws ein gwaith a'n cenhadaeth yn ystod y flwyddyn newydd hon? Gobeithio na fyddwn ni'n edrych i'r cyfeiriad anghywir, ac y bydd Seren Bethlehem yn parhau i ddangos y ffordd inni!

Doethion.....Sêr ddewiniaid... Brenhinoedd neu Magi? Pwy a wŷr beth neu bwy oedden nhw? Bu'r rhain yn destun sawl chwedl, stori a myth drwy'r oesau. Fe'u darluniwyd hwy bron yn ddi-feth ymhlith y rhai a gyrhaeddodd y stabl, ac eto does dim son am hynny ym Mathew (na chyfeiriad atyn nhw yn Luc). Cânt eu disgrifio fel brenhinoedd (ond nid ym Mathew), ac fel tri – er nad yw Mathew yn eu rhifo - dim ond cyfeirio at y tri anrheg! Ond, er hyn oll, y syrpreis mwyaf ydy mai cenedl-ddynion oeddent – ymwelwyr annisgwyl, pobl oddi allan i rengoedd hen deulu'r ffydd! Tybed pwy ddaw atom yn annisgwyl yn ystod y flwyddyn nesaf? Pa mor dda fyddwn ni am ddenu pobl newydd i ymuno gyda ni yma i gyd ganfod yr Iesu? A fydd yna groeso iddyn nhw?

A beth am y rhoddion – yr Aur, y Thus a'r Myrr? Tebyg nad oedd Mair a Joseff erioed wedi cael rhoddion tebyg i'r rhain o'r blaen: roedden nhw roddion drudfawr a gwerthfawr. Eto, ond rhai dyddiau yn ddiweddarach byddai'n rhaid i'r teulu bach ddianc i'r Aifft, a phwy a wŷr na fyddai'n rhoddion yn fwy gwerthfawr fyth i deulu bach o ffoduriaid yn dianc o ddialedd Herod a'i flwyr?

Pa roddion a roesom ac a dderbyniasom ni, y Nadolig yma?

Beth am y rhoddion na allwn ni ei gweld na'u cyffwrdd – y rhoddion a roddwyd inni gan Dduw – ydyn ni'n eu defnyddio i fod yn bobl wedi ein galw gan Dduw i'w waith yn y byd heddiw? Onid y seren hon a arweiniodd y doethion at sylfaen yr eglwys ar yr awr a'r lle arbennig honno at yr Efengyl, y Gair a wnaethpwyd yn gnawd, fyddai'n 'Cynghorir ni'n rhyfeddol', fyddai'n brwydro'n brwydrau trosom,

fyddai'n ein caru'n ddiamod fel 'Tad Bythol', ac yn rhoi ei dangnefedd yn ein calon – ein 'Tywysog Heddychlon'?

Mae blwyddyn arall ar ddod – boed i ninnau allu dweud fel y sêr-ddewiniaid hyn, 'Gwelsom ei seren ef ar ei chyfodiad a daethom i'w addoli' mewn gweddi ac mewn gwaith a chenhadaeth yr eglwys yr ydym yn cael y fraint o berthyn iddi yn ein milltir sgwâr. Ceir yr emyn isod yng Nghaneuon Ffydd - beth am i ni ei defnyddio fel gweddi bersonol ar ddechrau blwyddyn, ac yn arbennig felly yn Nhymor yr Ystwyll.

Tydi yw seren y canrifoedd maith,  
d'oleuni di sy'n tywys ar y daith;  
o bob rhyfeddod, ti yw'r mwyaf un,  
yn wyrth yr oesau yn dy wedd a'th lun.

O maddau, maddau fy ymdrechion gwyw,  
hyderus wyf am newydd fodd i fyw;  
tyn bob rhyw ddrygau cudd o'm calon i  
a rho im degwch fel dy degwch di.

Lle rwy'n sigledig un, rho im y ffydd  
a'r wawr wen olau sy'n troi'r nos yn ddydd,  
rho im orfoledd gobaith yn fy nghân  
ac un wreichionen fach o'th ddwyfol dân.

Dy rymus nerth, mae'n ddigon byth i mi,  
a mwy na digon dy gadernid di;  
i droedio'r daith sy'n ddryswch im o hyd  
O rho d'arweiniad, a bydd gwyn fy myd.

Dewch, gwnawn y SEREN yn destun myfyrdod a gweddi:

Sylfaen – gweddiwn y bydd pob aelod yn ceisio gweld arwyddion o gariad ac arfaeth Duw ar waith yn ein plith yn ystod y flwyddyn nesaf, ac y byddwn yn effro i bob cyfle ddaw i weithredu yn enw'r Iesu, Awdur a Pherffeithydd ein ffydd.

Eglwys – diolchwn i Dduw am gymuned yr eglwys gan weddio y bydd Duw yn ein hannog i wahodd mwy o bobl i ymuno yn y gynulleidfa ac yn ei gwaith yn ein cymuned ehangach.

Rŵan – dyma'r awr a dyma'r lle y gall pob aelod a chyfeillion yr Achos weithredu fel cymuned o Gristnogion ffyddlon a gweithgar gyda'i gilydd. Bydded inni fanteisio ar bob cyfle i addoli, ac i'r addoli hwnnw ddod â ni yn nes at yr Iesu, ac yn llwybr inni glosio at Dduw a phrofi dylanwad ei Ysbryd Glân yn ein bywydau.

Efengyl – diolchwn i Dduw am roi'r Efengyl inni yn oleuni bywyd ac yn newyddion da i'r byd. Dewch inni fyfyrion yn y Gair yn bersonol a cheisio fod yn rhodd Duw i eraill, wrth iddynt ddod i adnabod cariad Duw trwom ni.

Nerth – wrth wynebu troad y flwyddyn bydded i bawb ohonom weddio am nerth a chymorth Duw i gamu ymlaen i flwyddyn newydd, a chyfnod newydd llawn cyfleoedd a phosibiliadau newydd fydd yn galondid ac yn gysur, yn ysbrydiaeth ac yn arweiniad sicr i bawb ohonom.  
Blwyddyn Newydd ddedwydd dda i bawb ohonoch!

## Neges ar gyfer y Nadolig

yn seiliedig ar adnodd o wefan Roots

---

### Darlleniad o'r Hen Destament: Eseia 9.2-7

Wyddoch chi mai dyma rai o adnodau mwyaf enwog a chyfarwydd y Beibl: 'Canys bachgen a aned i ni, mab a roed i ni'... ac, 'fe'i gelwir Cynghorwyr rhyfeddol, Cawr o ryfelwr, Tad bythol, Tywysog heddychlon (ad. 6) Pan fyddwn yn gwranddo ar y geiriau hyn yn cael eu darllen yn gyhoeddus efallai bydd ein meddyliau yn dwyn i gof y gerddoriaeth enwog o waith Handel, sef 'Y Meseia'. Wedi dweud hynny, a rhyfeddu ar y cyflwyniad corawl, dylem gofio i Eseia lunio'r bennod pan oedd Judea yn rhyfela gyda Syria a Theyrnas Ogleddol Israel. Bu'r bobl yn byw dan fygythiad a gwarchae ac alltudiaeth. Ac eto, trwy Eseia, daw neges Duw atom; neges o obaith, gwaredigaeth ac achubiaeth. Trwy Eseia fe glywn Dduw yn proffwydo dyfodiad rhyw 'Dafydd' newydd fyddai'n dod i gyfannu cenedl Israel o'r newydd, 'gyda barn a chyfiawnder'. Dymuniad Eseia yw y bydd Duw yn anfon llywodraethwr tebyg i Dafydd, fyddai'n gallu arwain cymuned yr Arglwydd a sefydlu cyfiawnder o'r newydd.

I lawer, bydd y Nadolig hwn eto yn dod i fyd ansefydlog, anwar ac ofnus. Clywn straeon dyddiol ar y cyfryngau o ryfeloedd a thrais, ac er inni dynnu fwy fwy ar angor ffydd mae'n anodd bod yn obeithiol mewn dyddiau mor ddreng, cymunedau yn chwalu, safonau a moesau cymdeithasol yn gwegian. Ond fel y'n hatgoffir, "Mewn dyddiau anodd mae'n bwysig cydnabod fod ein ffydd yn gorfod derbyn sawl cnoc ac ergyd a siom ar y daith, ac eto nid yw hynny'n golygu inni golli'n ffydd." Ie, gallwn barhau i ymdrechu i fod yn ffyddlon, gan mai dyna ewyllys Duw ar ein cyfer, ac os wnawn ni glustfeinio eto wrth wrando geiriau Eseia, bydd yn siarad â ni am gariad Duw, a phwrpas dyfodiad y Meseia i'n byd. Ond beth ddywed yr Efengyl wrthym felly?

### Darlleniad o Efengyl: Luc 2.1-14, (15-20)

Wrth i'r Nadolig nesau, a ninnau'n mwynhau canu carolau, mynychu cyflwyniadau Nadolig ein hysgolion a'n hysgolion Sul, down wyneb yn wyneb a hen broblem, sef ein bod mewn perygl o fod yn or-gyfarwydd a'r hen hen hanes. Fel y mae cerdd Gwyn Thomas am adrodd am ymdrechion y gweinidog i ymarfer Drama'r Nadolig gyda phlant y festri, mae'n anodd ail bob hanes y bugeiliaid a'r doethion a'r angylion, heb anghofio am enedigaeth y baban Iesu, ac ati.

Ar un wedd, mae'r holl hanes yn parhau i lefaru wrthym am ryfeddod yr Ŵyl, gyda'r plant ar eu gorau, mor naturiol ag y gall plentyn fod. Daethant â rhyfeddod yr Ŵyl, a gwyrth y geni yn fythol agos atom yn eu diniweidrwydd a'u gallu i gredu yn yr Iesu hwn. Ar wedd arall, cawn ein tywys gan Luc i fyfyrion ar le lletygarwch, a chroeso a ffoaduriaid fel rhai o brif themâu hanes y Nadolig cyntaf. Wedi'r cyfan, doedd yna ddim lle yn y llety, heb son nad oedd lletyau fel yr ydym ni wedi arfer, ar gael yn y cyfnod hwnnw mewn gwirionedd, fe anwyd Crist i'r byd heb fawr o groeso. Gorfodwyd Mair a Joseff i deithio i Fethlehem, ar gyfer y cyfrifiad, ac eto nid oedd croeso iddynt yno, a chawsant eu trin fel dieithriaid. Ac er bod Iesu, yr Emaniwel, ar fin cael ei eni i'r byd, bydd ei enedigaeth yn debycach i enedigaeth ffoadur mewn gwerysll tros dro i ffoaduriaid, yn hytrach na dyfodiad Brenin Nef a Thywysog Tangnefedd.

Credaf fod lletygarwch yn rhan o'n gwead ni ymysg ffrindiau, ac yn rhan annatod o'n ffydd a'n credo fel pobl Dduw heddiw. Rydym i fod yn lletywyr parod, megis ag y mae Duw wedi'n hannog i fod.

Nid felly hanes rhai o wledydd y byd, wrth iddynt ymwrthod ar cyfleon i groesawu ffoaduriaid: codi muriau a rhwystrau a wneir rhag i rywrai mewn angen manteisio ar ein cyfoeth a'n cyfforddusrwydd. Nid ar hap y gwelwn y rhai breintiedig mewn cymdeithas yn gwneud popeth bosib i warchod eu breintiau yn hytrach na'u rhannu.

Yn ôl Luc, 'bugeiliaid' ddaeth yn gyntaf at y preseb, a chyn hynny hwy oedd y rhai cyntaf i glywed am enedigaeth Iesu. Y nhw oedd y rhai cyntaf i glywed y Newyddion Da! Y nhw oedd yr 'isel rai' mewn cymdeithas y pryd hynny ac eto y mae iddynt wedd wahanol hefyd – maent yn eiconau yn ogystal. Hynny yw, defnyddir y gair 'bugail' yn gyson yn yr Hen Destament i ddarlunio gofal a chariad Duw tuag at ei bobl. Ac eto, dywed diwinyddion wrthym mai cynrychioli alltudion cymdeithas oedd y bugeiliaid: pobl syml a diddysg, yn methu cyflawni gofynion cyfraith Moses – yn byw yn y gwyllt ochr yn ochr a'u hanifeiliaid – yn bobl aflan ac anghyfiawn eu hysbryd – yn bobl y cyrion! Ond pobl y cyrion a'u peidio, y nhw caiff eu galw'n gyntaf at y preseb: nid y rhai breintiedig, nid y rhai yn mwynhau bywyd bras, ac nid y diwinyddion nac athrawon y gyfraith. Y rhai od a gaiff eu gwadd – y rhai rhyfeddol o syml eu hysbryd a welodd rhyfeddodau sanctaidd y geni gwyrthiol y noson honno.

A phwy medden ni sydd wrth galon a chraidd hyn i gyd ond Iesu, 'y Gwardwr, yr hwn yw'r Meseia, yr Arglwydd.' (ad. 11); a'r neges radical gan Dduw i ni, y rhai ymarhous, yw bod yn rhaid inni fod yn fwy agored ein ffydd a'n ffyddlondeb, yn fwy sicr ein llwybr ac yn fwy hael ein lletygarwch, gan fod Duw wedi gwneud ei hun yn ddiamddiffyn a chwbl ddibynnol ar ei ofalwyr. Dyma'r Duw, yn y baban Iesu sy'n ymddiried popeth inni ar gyfer ei eglwys heddiw. Dyma'r berthynas arbennig, y bartneriaeth arbennig y'n gelwir ni iddo ar drothwy'r Wyl fel hyn.

Y gwir yw mai gobaith sy'n ganolog i'n ffydd, a chariad yn ganolog i'n credo, fel y byddwn yn gallu ymateb i'r gofyn dwfn am brofi presenoldeb y Tad Tragwyddol, Tywysog Tangnefedd yn ein bywyd bob dydd. Daw, fe ddaw Tywysog Tangnefedd atom i'n harwain, ond nid fel y mae'r byd yn arwain heddiw. Ef yw'r baban sy'n adlewyrchiad perffaith o wyneb Duw. Ef yw'r Un a'n carodd a chariad mor fawr, fel y bu'n barod i fod yn ufudd i Dduw hyd yr eithaf er ein mwyn. Felly...

Rhown glod i'r Mab bychan, ar liniau Mair wiwlan,  
daeth Duwdod mewn baban i'n byd:  
ei ras O derbyniwn, ei haeddiant cyhoeddwn  
a throsto ef gweithiwn i gyd.

## Myfyrdodau ar gyfer yr Adfent

---

### Sul Cyntaf yr Adfent

#### Darlleniad: Mathew 1:18-21

Joseff: 'Aethant ar frys, a chawsant hyd i Mair a Joseff, a'r baban yn gorwedd yn y preseb.'

Pan fyfyriwn ni ar hanes y Nadolig cyntaf, mae'n hawdd iawn i'r meddwl grwydro, a'r cof i ramantu. Ers cyn cof bu arlunwyr yn darlunio bugeiliaid a'u preiddiau, doethion a'u hanrhegion, y côr angylaidd, a'r anifeiliaid yn y stabl; y cyfan hyn wedi'u portreadu yn gelfydd ac yn gywrain i bawb eu gweld. Serch hyn oll, tri chymeriad sy'n greiddiol i hanes y Nadolig cyntaf sef Joseff, a Mair a'r baban ym Methlehem, sef Iesu.

Cymeriad anghofiedig o bosib drama'r Nadolig yw'r hen Joseff. Efe a gafodd y fraint o chwarae rhan y tad ym mywyd cynnar Iesu. Yn ôl traddodiad ei gyfnod a'i linach, dewisodd Duw rhoi gwaith pwysig iddo fel gŵr, tad, athro, darparwr a gwarchodwr y bychan. Bu'n bresennol ar enedigaeth yr Iesu a gallwn gymryd cysur iddo fod yn annwyl ac yn gariadlawn yng ngolwg ei fab unigryw.

Ychydig o wybodaeth fywgraffyddol sydd i'w gael amdano yn y Beibl: dim sôn am ddyddiadur na chyfrol yn dweud yr hanes. Gŵr ei filltir sgwar ydoedd drwy gydol ei oes bron, oni bai am y cyfnod y bu'n rhaid iddo yntau, gyda Mair a'r Iesu, ffoi i'r Aifft rhag yr Herod dialgar. Gŵr syml, gwerinol ydoedd, yn saer wrth ei alwedigaeth. Does dim cofnod yn yr ysgrythur o unrhyw sylw a wnaeth erioed, a does dim sôn amdano wedi i Iesu gyrraedd rhyw ddeuddeg oed. Tybia rhai ysgolheigion iddo farw yn ŵr gymharol ifanc, ac i'r Iesu, y mab hynaf, ei ddilyn yn y gweithdy fel saer yn y man.

Nid Joseff oedd tad biolegol Iesu, gan i'r ysgrythur ein dysgu mae cenhedliad drwy'r Ysbryd Glân a gafwyd, a Mair hithau heb fod mewn perthynas â unrhyw ŵr cyn hyn. Ond, Joseff a ddewiswyd gan Dduw i fod yn dad daearol ym mlynnyddoedd cynnar ei Fab Iesu.

Fe gofiwn ni fod Joseff yn ddyn agored ei ysbryd. Profwyd ei ffydd yn fawr iawn yn y digwyddiadau arweiniodd at enedigaeth Iesu. Roedd wedi ei ddyweddio i ferch ifanc o'r enw Mair, a chyn iddynt gael cyfle i briodi, darganfu ei fod eisoes yn feichiog; ergyd fawr iddo, digon i siglo ei hunan barch. Ond na, nid dyna ddigwyddodd. Cawn weld cryfder a hyd a lled ei gymeriad a'i ffyddlondeb i Dduw pan ddaw'r angel ato i egluro cenhedliad gwyrthiol Iesu.

Fe gofiwn hefyd fod Joseff yn ŵr a oedd yn barod i gredu'r gorau am Mair. Credodd fod Mair yn ei garu ac fe'i carodd yntau hithau yn ddiamod. Credodd ei geirwiredd, gonestrwydd a chywirdeb ei chymeriad, a phenderfynodd fentro ei enw da drwy sefyll gyda hi drwy bopeth. Credodd yn ei phurdeb, ac fe'i cymerodd yn wraig iddo. Credodd yntau ym mwriadau Duw ar gyfer yr Iesu hefyd. Wyddoch chi, mae'n hawdd credu'r gwaethaf am bobl, ac weithiau rhuthrwn i farn amdanynt heb wybod y ffeithiau i gyd. Dim ond Duw sydd a'r hawl i farnu ei bobl. Nid ein lle ni yw cymryd arnom rôl Duw. Bu Joseff yn dad ardderchog, ac un o gyfraniadau pwysicaf gweinidogaeth Iesu i ni yw'r darlun a greodd inni o Dduw fel ein Tad nefol, amlygwyd ei anian a'i gariad diderfyn yn hanes y Mab Afradlon – neu'r Tad cariadlawn. Do cymerodd Joseff arno'r fantell o dad arbennig iawn a'i gwisgo drwy gynnig cariad a chysur a chynhaliaeth i'r Iesu tra roedd yn tyfu yn ddyn ifanc. Dylem gydnabod hynny a diolch iddo am ei gyfraniad arbennig i fywyd Mab y Saer.

Fe rannodd â'i Fair hynod – yr annwyl

Feithriniad a'r cysgod;

Y dyn hwn, y saer di-nod

Bu'n dad i fab y Duwdod.



## Ail Sul yr Adfent:

---

### Darlleniad: Luc 1:26-31

Mair: Meddai'r angel wrthi, "Paid ag ofni, Mair, oherwydd cefaisst ffafr gyda Duw; ac wele, byddi'n beichiogi yn dy groth ac yn esgor ar fab, a gelwi ef Iesu.

Mae'n anodd credu fod mam ddaearol Tywysog Tangnefedd wedi bod yn destun gwawd a sen, gwrthdaro, addoli ac anghytundeb mewn cymdeithas ar y pryd, a thrwy'r canrifoedd gan wahanol wybodusion. I rai mae Mair yn berson i'w haddoli. I eraill mae'n destun gweddi. I rai mae'n berson i'w hanwybyddu, ac i eraill yn wraig i'w dyrchafu. Wrth gwrs, nid ydym yn ei haddoli fel Ymneilltuwyr, ond yn hytrach yn parchu ei hatgof ac yn ei anrhydeddu fel mam ein Harglwydd Iesu Grist.

Cawn hyd i hanes Mair yn efengylau Mathew a Luc – cawn ei hanes fel merch ifanc werinol yn hanu o barthau Galilea. Roedd wedi ei dyweddio i ddyn ifanc o gymeriad cadarn, parchus, ac aeddfed o'r enw Joseff. Roedd dros ei phen a'i chlustiau mewn cariad ag ef ac yn edrych ymlaen at ei briodi maes o law.

Yna, cawn hanes y cyfarfyddiad cyfrin gyda'r Angel Gabriel, a'i neges ysgytwol iddi. Yn gyntaf, dywed wrthi, "Henffych well, tydi, yr un y rhoddodd Duw ei ffafr iddi!" a phwy a welai fai ynnddi am gredu am eiliad y byddai popeth yn iawn, a'r llwybr o'i blaen yn esmwyth. Ond, fel y gwyddom, nid yw dod yn ffafriol yng ngolwg yr Arglwydd bob amser yn gwarantu llwybr esmwyth ar daith bywyd. Byddai merch ifanc o bentref bach di nod yng Ngaleilea yn rhoi genedigaeth tu allan i gyfamod priodas, a byddai hynny yn wrthun o beth yng ngolwg y cymdogion yr oes honno.

Pa fodd felly y gallai Mair dorri'r newydd i Joseff? Beth bynnag am dafodau rhydd gwawd a gwarthrudd cymdogion, mi fyddai hefyd yn colli'r darpar ŵr yr oedd yn ei garu mor fawr. Ond trwy ryfedd wyrth a'r hyn a rannwyd gyda Joseff gan yr angel mewn breuddwyd, fe benderfynodd Joseff ei phriodi wedi'r cyfan. Yna bu'n rhaid iddi esgor ar ei phlentyn cyntaf-anedig ym Methlehem, rhyw saith deg milltir o gartref, heb na bydwaig na ffrindiau i'w helpu; dim ond Joseff a'r anifeiliaid yn gwmni.

Ganed y baban mewn beudy anniben a budr gan nad oedd lle yn y llety cyfagos. Yna, a'r baban yn fychan, bu'n rhaid ffoi i'r Aifft rhag dialgarwch a dicter Herod a'i filwyr milain. A phan dyfodd Iesu yn ddyn, penderfynodd adael gweithdy'r saer a chychwyn ar weinidogaeth ddi-synnwyr, heriol a pheryglus yng ngolwg yr awdurdodau crefyddol. Do, cafodd Mair weld doethion yn dod i'w addoli, cyn y byddai yn byw i weld arweinwyr y genedl yn cynllwynio yn erbyn yr Iesu, ac fe fyddai hynny fel petai ei chalon wedi ei thrywanu gan gleddyf. Daeth Mair yn symbol o bopeth da a chymeradwy a welwn ym mamau'n byd heddiw. Bu'n ufudd i Dduw a'i gynllun ar gyfer y ddynoliaeth. Gosododd bopeth wrth ei draed ar allor ei wasanaeth – ei hunan barch, ei integriti fel person, ei chariad, a'i chartref – a thrwy hynny bu ei ffyddlondeb i Dduw yn esiampl i bawb ohonom.

Ond nid un i'w haddoli yw Mair yn ôl y traddodiad diwygiedig. Ni ddylid ei mawrygu fel pedwerydd person y Drindod. Y darlun olaf y sydd gennym ohoni yw ei phresenoldeb mewn cyfarfod gweddi gyda merched eraill, a chyda brodyr Iesu ym mhennod gyntaf Llyfr yr Actau. Yno, fe'i gwelwn yn addoli gyda phawb arall, ac nid yn wrthrych addoliad gan bawb. Cafodd ffafr gan Dduw, ac fe gyflawnodd ei gwaith yn ffyddlon Iddo. Un cyfryngwr sydd rhwng Duw a dyn – sef Iesu, ac fel Mair, cawn gyfle i uno gyda'n gilydd mewn addoliad i'n Tad yn y nef, sy'n gwrandao ar ein deisyfiadau, yn ymateb i'n gweddiâu, ac yn cadw ei addewidion inni.

Bu'r Fair Wen, y buraf o'i rhyw, yn dwyn

Un di-nam; y cyfryw

Mysterium Tremedum yw,

Dyndod a Duwdod ydyw.

## Trydydd Sul yr Adfent:

---

### Darlleniad: Luc 2:1-7:

Plant Duw: “Canys bachgen a aned i ni, mab a roed i ni”

Un tro, penderfynodd hogyn bach ddal gafael ar un darn o beth da a gafodd ar ddiwedd parti Nadolig yn y Festri. Pan ofynnodd ei fam iddo pam yr oedd wedi gwneud hyn, atebodd ei fod yn ei gadw i'w roi i'r baban Iesu pan fyddai wedi tyfu.

Daw, fe ddaw'r ddrama'u Nadolig yn llu gyda hyn, gyda llawer ohonynt yn cyfeirio at y baban yn y preseb drwyddi draw. A dyna ydy'r Nadolig i lawer o bobl o hyd – y baban yn y preseb, yn derbyn ymwelwyr ac anrhegion ar noswyl arbennig yn hanes y byd.

Ond tyfodd Iesu yn ddyn – fe dyfodd mewn doethineb a ffafr gyda Duw. Fe dyfodd yn ddyn a ddaeth i'n byd i fod yn Waredwr inni. Ef oedd y Gair a ddaeth yn gnawd ac a fu'n byw yn ein plith – ac y mae'n dal i breswyllo ynom, yn ein calonnau drwy ffydd. Os ydi'n dal i guro ar ddrws y galon, tybed wnawn ni agor iddo eleni?

Siwr iawn fod gan yr Ŵyl arwyddocâd arbennig i blant y byd, gan mai baban oedd yr Iesu ar y Nadolig cyntaf. Mae'r Ŵyl yn llawn cyffro, caredigrwydd, ac ewyllys da sy'n fendith i bawb ohonom yn ddiwahân. Ac weithiau, bydd rhyw wedd o ddiniweidrwydd y plentyn yn dychwelyd i'n profiad ac yn gymorth i'n hatgoffa am y pwysigrwydd o dderbyn a dod o fewn cyrraedd y deyrnas megis plentyn neu blant Duw.

Iesu a ddywedodd wrth ei ddisgyblion, “Yn wir, rwy'n dweud wrthyich, heb gymryd eich troi a dod fel plant, nid ewch fyth i mewn i deyrnas nefoedd.” (Mathew 18: 3). Ninnau a newidiasom eiriau'r Iesu a'u gwrthdroi gan ddweud wrth ein plant, “... heb gymryd eich troi yn oedolion, nid ewch fyth i mewn i deyrnas nefoedd!” Gymaint fydd ein colled o fewn hen deulu'r ffydd os na allwn ni ddod at yr ŵyl yn null plentyn i ryfeddu ac addoli eleni. Dewch inni yn ein diniweidrwydd, ein gwyleidd-dra a'n hymddiriedaeth ganfod o'r newydd bresenoldeb Duw yn ein bywyd a'n buchedd. Dewch inni weddio y cawn ein bendithio ag ysbryd plentynnaidd, fel y gall cyfaredd a rhyfeddod a gwawl yr Ysbryd Glân ein cyffroi gyda hanes y Nadolig cyntaf. Dewch inni fwrw ymaith ein rhwystredigaethau, ein rhagydybiaethau, ein rhagfarnau a'n hofnau a chredu'r gorau am ein gilydd, am ein Harglwydd Dduw, ac am ei Fab Iesu, ein Ceidwad a'n Gwaredwr. Gadewch i'r plentyn oesol sydd ynom gamu i flaen llwyfan yr Ŵyl, a chofio mai megis plentyn y dewisodd Duw ddod i'n plith i'n caru a'n cymodi ag Ef ei hun. Nid gŵyl i'r plant yn unig ydyw fel y dywed llawer wrthym – Gŵyl holl blant Duw ydyw – boed ni'n un oed, yn ddeg oed, yn ddeg ar hugain oed, neu yn gant oed!

Gŵyl y saer, gŵyl y seren – a'r garol

Gyda'r geiriau llawen;

A gŵyl lon y gelynnen,

Gŵyl cân a Baban yn ben.

## Pedwerydd Sul yr Adfent:

---

### Darlleniad: Luc 2:8-16

Y Bugeiliaid - Pobl Dduw:

“Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd ymhlith y rhai sydd wrth ei fodd.

Roedd hi'n noson oer ar fynydd lle'r oedd y bugeiliaid wedi ymgasglu o gylch y tân. Doedden nhw ddim yn disgwyl ymweliad gan Dywysog Tangnefedd y noson honno. Bugeiliaid oedden nhw – rhai blêr a budr, rhai na fyddent yn cael mynediad i'r deml, gan na fuont erioed drwy ddefod y glanhad. Go brin y gwelech chi'r un o'r rhain yn yr 'eglwys' yn addoli. Pwy oedden nhw – gwerinwyr di-nod, dynion a bechgyn garw'r olwg a garw eu byw. Gwehilion cymdeithas na fedrir ymddiried ynddynt i fod yn eirwir na thriw. Go brin y caech y rhain yn dystion mewn llys barn - yn wir y ma'r Talmud, sef cyfraith yr Iddew, yn dweud fel hyn, 'Ni ddylech roi cymorth i bagan na bugail.' Diolch bod Duw yn edrych heibio i ryw ragfarnau fel hyn. Y noson honno byddai anghofiedig rai yn dod yn annwyliaid yng ngolwg Duw, ac ymhlith y rhai cyntaf i gael cip ar y Meseia a chyfle i'w addoli o flaen pawb arall.

Fe geir heddiw rhai sy'n teimlo nad ydynt yn perthyn i gymdeithas. Maent yn sefyll ar y cyrion, yn unig ac amddifad, ac yn brin o gysuron y byd heddiw, ac yn methu gweld y bydd yfory yn dod â dim byd amgenach iddynt. Dyma'r rhai yr amlygodd Duw ei hun iddynt ar y Nadolig cyntaf – dyma'r rhai a gafodd blygu glin mewn addoliad syml, dirodres a didwyll.

Yn sydyn reit, goleuwyd tywyllwch eu canol nos fel haul canol dydd, wrth i angel yr Arglwydd ymddangos gan gyhoeddi: “Peidiwch ag ofni, oherwydd wele, yr wyf yn cyhoeddi i chwi y newydd da am lawenydd mawr a ddaw i'r holl bobl: ganwyd i chwi heddiw yn nhref Dafydd, Waredwr, yr hwn yw'r Meseia, yr Arglwydd; a dyma'r arwydd i chwi: cewch hyd i'r un bach wedi ei rwymo mewn dillad baban ac yn gorwedd mewn preseb.” Yna diflannodd y goleuni yr un mor sydyn. Medrwn weld a chlywed y bugeiliaid yn ei baglu hi nerth eu traed am y stabal gan adrodd geiriau angylion, 'Gogoniant i Dduw... ac ar y ddaear, tangnefedd... tangnefedd... tangnefedd.' Dim rhyfel mwyach, dim casineb na thrais – dim mwy o anghydfod a brwydro, dim milwyr Rhufeinig yn tra awdurdodi! Heddwch o'r diwedd! Dyna syniad! Ac wedi cyrraedd at y preseb, a phlygu glin gerbron Iesu, adroddasant yr hanes am neges yr angel, a rhyfeddodd pawb... onid bugeiliaid oedd y rhain?

Am rai misoedd roedd y wlad wedi cyffroi gydag addewid o heddwch a thangnefedd, hyd nes y daeth y rhaglaw Rhufeinig gyda gorchymyn gan Herod i ladd pob plentyn dyflwydd a llai: 'a chlywyd llef yn Rama... Rahel yn wyllo am ei phlant!' Byr hoedlog fu'r heddwch, dros dro y parhaodd y tangnefedd, a phwy a feiau'r rhieni am beidio â chredu neges y bugeiliaid wedyn. Onid felly y mae'n parhau hyd heddiw mewn ar sawl cyfandir ac mewn sawl gwlad – heddwch yn brin, a thangnefedd tu hwnt i bob gafael, hyd yn oed ym Methlehem heddiw?

Gwn am fro lle nid oes hedd,  
Na cherydd o'r tannau tynion;  
Ond lle torrir ar y wledd  
Gan ru taranau dynion:  
Cofia dithau'r llanciau trist  
Sydd am eu tir yn wyllo,  
Ac yn cadw Gŵyl y Crist  
A'r gynnau yn eu dwyllo. Hedd Wyn (1916)

## Croeso a Chlod i Ti - Dydd Nadolig

---

### Darlleniad: Eseia 9:2-7

Iesu – Tywysog Tangnefedd.

‘A bydd tangnefedd Duw, sydd goruwch pob deall, yn gwarchod dros eich calonnau a’ch meddyliau yng Nghrist Iesu.’

Tywysog tangnefedd wna’n daear o’r diwedd  
yn aelwyd gyfannedd i fyw;  
ni fegir cenfigen na chynnwrf na chynnen,  
dan goron bydd diben ein Duw.  
yn frodyr i’n gilydd, drigolion y gwledydd,  
cawn rodio yn hafddydd y nef;  
ein disgwyl yn Salem i ganu yr anthem  
ddechreuwyd ym Methlem, mae ef.  
Rhown glod i’r Mab bychan, ar liniau Mair wiwlan,  
daeth Duwdod mewn baban i’n byd:  
ei ras O derbyniwn, ei haeddiant cyhoeddwn  
a throsto ef gweithiwn i gyd.

Jane Ellis 1840

Dyna chi neges cyffrous ar gyfer y Nadolig – Tywysog Tangnefedd yn wir wedi dod i’r byd, gan gynnig tangnefedd i’r sawl sy’n ei geisio, a heddwch i’r sawl sydd am hyderu am ddyfodol gwell. Nid heddwch gwleidyddol mohono, na heddwch rhwng gwledydd âi gilydd ychwaith. Dod i adfer a chymodi a wnaeth y Meseia, a chynnig tangnefedd i’r rhai sydd am gredu ynddo mewn byd cythryblus a hunanol, balch a barus. Daeth Iesu atom i adfer ein calonnau, i’n gwaredu ni rhag ein pechodau ac i’n cymodi ni â Duw trwy farw drosom ar groes.

Ac y mae tangnefedd Duw yn rhywbeth amheuthun iawn inni ymgyrraedd at ei dderbyn y Nadolig hwn eto. Dyma’r tangnefedd sydd y tu hwnt i feddylfryd a deall y byd – dyma’r tangnefedd sydd yn abl i gadw’n calonnau a’n meddyliau yn agos at Grist Iesu, ein Harglwydd. Dyna dystiolaeth yr Apostol Paul yn ei lythyr at y Philipiaid, ‘Llawenhewch yn yr Arglwydd bob amser; fe’i dywedaf eto, llawenhewch. Bydded eich hynawsedd yn hysbys i bob dyn. Y mae’r Arglwydd yn agos. Peidiwch â phryderu am ddim, ond ym mhob peth gwneler eich deisyfiadau yn hysbys i Dduw trwy weddi ac ymbil, ynghyd â diolchgarwch. A bydd tangnefedd Duw, sydd goruwch pob deall, yn gwarchod dros eich calonnau a’ch meddyliau yng Nghrist Iesu.’

Mewn dyddiau dreng, o gyfnodau tywyll, a blynyddoedd anodd fe lefarodd Paul wrth yr eglwys am bwysigrwydd canfod y tawelwch mewnol, esmwythder yr enaid a ddaeth yn brofiad cryfach iddo wrth ymddiried a chredu drwy ffydd yn Nuw.

Clywir rhywun o bosib yn gofyn y cwestiwn wrth ryw goeden Ddolig neu yng nghysgod rhyw seren, “Ble gallaf gael gafaél ar y tangnefedd yma fy hun y Nadolig hwn?” Ni ddaw’r tangnefedd hwn i’n profiad wrth bwyso ar y byd a’i bethau. Chwiliwn a fynnom, ond ni ellir cael hyd i hwn ymysg deniadau byd a bro, meddiannau ac anrhegion Nadolig. Iesu sy’n dweud, “Yr wyf yn gadael i chwi dangnefedd: nid fel y mae’r byd rhoi yr wyf fi yn rhoi i chwi.” Rhodd Duw i ni yw ei dangnefedd –

rhodd a gynigir i ninnau fel i'r bugeiliaid gynt. Y mae'r rhodd hwn yn eiddo i bawb sy'n ymddiried ei fywyd i Dduw drwy Iesu Grist. Rhodd yw a ddaw o'r newydd i ni wrth inni blygu, rhyfeddu ac addoli'r hwn a ddaeth i'n caru ni â chariad mor fawr. Sut na allwn ni felly fyw ein bywydau wrth fodd Duw? Dyma gyfle ddaeth i ni – dewch, dechreuwn o'r newydd: dilynwn yr Arglwydd i gyfnod newydd. Gorfoleddwn a Gwasanaethwn yn ei enw Ef.

O deuwch ffyddloniaid oll dan orfoleddu  
O deuwch, O deuwch i Fethlem dref  
Wele fe anwyd T'wysog ein Tangnefedd  
    O deuwch ac addolwn  
    O deuwch ac addolwn  
O deuwch ac addolwn Grist o'r nef.

Y Gair yn y gwair yn gorwedd – a Duw  
    Wedi dod o'r diwedd,  
    Yna'r nefol orfoledd  
    A ddaeth gan gyhoeddi hedd.  
                                James Nicholas

Croeso a chlod i ti, Iesu, Fab Duw,  
Am i ti ddatguddio i ni gariad y Tad.

Croeso a chlod i ti, Iesu, Fab y Dyn,  
Am iti gymryd arnat ein cnawd a'n natur ddynol ni.

Croeso a chlod i ti, Iesu, Gynghorwr rhyfeddol,  
Am i ti ein harwain o dywyllwch i oleuni.

Croeso a chlod i ti, Iesu, Dad Tragwyddoldeb,  
Am i ti ein dwyn i mewn i deulu Duw.

Croeso a chlod i ti, Iesu, Dywysog Tangnefedd,  
Am i ti sefydlu teyrnas tangnefedd yn ein plith.

Croeso, clod ac addoliad i ti  
Iesu, ein Gwardwr a'n Harglwydd.  
Amen

## Gweddi ar drothwy'r Nadolig

---

Arglwydd pob tangnefedd, ar drothwy'r Nadolig...

cymer ni yn dy law,  
cadw ni yn d'ymyl,  
cofleidia ni a'th gariad,  
cysura ni a'th ysbryd.

Mewn byd lle mae rhai heb obaith a'r Wyl yn ddiystyr i gymaint  
maddau inni, Dad trugarog am fod mor ddibris o'th fendithion,  
ac am fethu canfod pwrpas dy ddyfod atom ar y Nadolig cyntaf.

Arglwydd pob cysur, ar drothwy'r Nadolig tywys ni i'th oleuni sanctaidd.

Trwy dywyllwch ein llety llawn tro ni yn ôl ar hyd y llwybrau  
y bu'r bugeiliaid yn eu troedio i Fethlehem gynt.

Tywys ni trwy ddrws y beudy a draw at ymyl y preseb.

Tynn y gorchudd oddi ar ein llygaid fel y gwelwn y Mab yn ei holl ogoniant.

Mewn byd heb obaith, a bywyd yn rhad,  
maddau inni'r gyfeddach a'r camymddwyn,  
bydd yn gwneud pobl yn ddall i wir ystyr y dathlu eleni.

Arglwydd pob rhyfeddod, ar drothwy'r Nadolig,

arwain ni megis y doethion gynt ar y daith i Fethlem.

Agor ein llygaid i weled fe y gallem ganfod ein Gwardedwr,  
adfer ni i'w bresenoldeb yn ein bywyd beunyddiol,  
adlewyrcha ynom ei gariad a'i dosturi ef.

Mewn byd heb obaith, a bywyd yn rhad, maddau inni  
os byddwn yn methu dy ganfod ar waith ym mywydau'n gilydd.

Arglwydd pob gogoniant ar drothwy'r Nadolig

cyflwynwn i'th ofal y rhai na allent weld fod y Nadolig ar ddod,

na allent weld tu hwnt i'r awr nesaf,

na allent weld tu hwnt i'w anawsterau a'u hanobaith y Nadolig hwn.

O Grëwr Goleuni y Byd,

tyn ni yn ôl i lewyrch dy bresenoldeb.

O Grëwr harddwch yr Wyl,

tro ni yn ôl i lwybrau dy ddaioni.

O Grëwr pob enaid,

adnewyddda ni yn ôl dy lun a'th ddelw dy hun.

Yna daw gobaith newydd y Nadolig i'n cynnal yn y man lle rydym.

A daw grym dy ysbryd i'n codi i fywyd newydd,

'Canys bachgen a aned i ni, mab a roed i ni' –

Ganed Iesu, gwir Fab Duw.

O deuwn ac addolwn. Haleliwia! Amen .

## Myfyrdodau Adfent

---

### Myfyrdod 1: Sul cyntaf yr Adfent

‘Canys bachgen a aned i ni, mab a roed i ni,’ Eseia

Dyma ni, mae’n Adfent eto! Wyddoch chi, rydym mewn perygl gwirioneddol erbyn hyn o golli golwg a gollwng gafaél ar wir ystyr yr Wyl, ac o rodd fwyaf Duw i’r byd. Byddwn wedi ymgolli yn yr anrhegion a ddaw i’n rhan gan deulu a charedigion eraill, tra bydd yr hanes gan Eseia yn cael ei golli bron yng nghanol y cyfan.

Tristwch y cyfan yw ein bod yn byw mewn byd sydd wedi ffoli ar dathliadau ‘Gwyl y Gaeaf yn hytrach na’r Nadolig, ac mai ond ychydig ohonom bellach sydd yn gallu uniaethu go iawn â’r baban a aned ym Methlehem ac a gafodd ei osod i orwedd mewn preseb. A daeth y Doethion at hwn gan ofyn, “Ble mae’r hwn a anwyd yn frenin yr Iddewon? Oherwydd gwelsom ei seren ef ar ei chyfodiad, a daethom i’w addoli.” (Mathew 2:2). Onid nyni ddylai fod yn gofyn y cwestiwn, “Pwy yw hwn? Be’ dwi’n feddwl o’r Crist hwn?”

Ai cymeriad dychmygol yw Crist? Ai cymeriad mytholegol yw Crist? Ai’r Crist yw’r cymeriad mwyaf hynod a droediodd ar lwyfan hanes erioed? Wedi’r cyfan, onid pen-blwydd Crist a greodd era newydd yn hanes y bydd yn rhannu gorffennol oddi wrth y dyfodol? Onid ysbryd Crist a ysbrydolodd baentiadau dirifedi gan y meistri. Onid cariad Crist fu’n sbardun i gyfansoddwyr, arlunwyr a chelfyddyd? Onid dylanwad y Crist a barodd i rai ymateb i anghenion dyfnaf y ddynoliaeth gyda’r fath haelioni? Onid bywyd y Crist hwn roddodd destun i ddiwinyddion a haneswyr i ysgrifennu cyfrolau hynod o werthfawr mewn ymgais i ddatrys a dehongli un o’r enigmas mwyaf a welodd y byd erioed?

Be neu pwy gawson ni’n rhodd felly ar y Nadolig cyntaf? Rhoddodd Duw inni Fab goruwchnaturiol. Hynny yw - cafodd ei eni i’r Forwyn Fair. Pam fod cymaint yn ei chael hi’n mor anodd i dderbyn hynny? Os nad yw ein Duw yn fod goruwchnaturiol ac yn gallu gwneud pethau goruwchnaturiol, beth yw’r pwynt o’i addoli os ydio ond yn union yr un fath â ni? Fe allwch chi gael Bwdhaeth heb Fwda, Conffiwsiaeth heb Conffiwsis, ac Islam heb Fuhammad; ond fedrwch chi ddim cael Cristnogaeth heb y Crist. Nid còd na chredo yn unig mohono, ond cymdeithas a pherthynas gyda pherson byw, sef Iesu Grist!

Rhoddodd Duw inni Fab na phechodd erioed. Dyma’r dystiolaeth a gawn yn y llythyr at yr Hebreaid “Canys nid archoffeiriad heb allu cyd-ddioddef â’n gwendidau sydd gennym, ond un sydd wedi ei demtio ym mhob peth, yn yr un modd â ni, ac eto heb bechod.” Hynny yw roedd Iesu yn gwbl ddibechod, yn enghraifft arbennig o burdeb personol. Doedd Peilat ei hun yn methu cael dim byd o’i le ynddo, fel y gallai ei gyhuddo o unrhyw drosedd. Heblaw am hynny, onid agorodd y nef ar achlysur ei fedyddio, gyda’r Ysbryd Glân yn dod megis colomen, yn disgyn ar ei ysgwydd. Yna clywodd pawb oedd yn bresennol lais Duw yn dweud, ‘Hwn yw fy mab, yr anwylyd, ynddo ef yr wyf yn ymhyfrydu.’ Digwyddodd rhywbeth tebyg ar achlysur y gweddnewidiad hefyd, “Hwn yw fy Mab, yr Anwylyd; ynddo ef yr wyf yn ymhyfrydu; gwrandedwch arno.” A ydan ni yn barod i wrando arno?

Rhoddodd Duw inni Waredwr: Dyna chi syniad, eich bod angen eich gwaredu rhag rhywbeth! A’n

gwaredo – ond dyna'r gwir. Dyna graidd neges y Nadolig fel y'i ceir yn yr hen garolau Plygain. Crist Iesu yw'r un a ddaeth i'n gwaredu ni rhag ein gorffennol drwy faddau inni ein pechodau a'n cymodi gyda Duw. O! na fedren ni wir werthfawrogi'r rhodd honno y Nadolig hwn? Ac y mae Ef yn fyw gyda ni heddiw, yn bresennol gyda ni yn ein bywydau:

Ef yw ymgorfforiad meddwl Duw heddiw...  
Ef yw llais Duw heddiw yn llefaru wrth ei bobl...  
Ef yw calon Duw yn curo dros ei bobl...  
Ef yw llaw Duw yn estyn allan at ei bobl...  
Ef yw Gwaredwr Duw sy'n cyfarfod ag anghenion dyfnaf ei bobl...  
Ef yw'r un sydd wedi mynd i baratoi lle ar gyfer pobl Dduw...  
Ef yw'r un sy'n cynnig bywyd tragwyddol i'w bobl.

Gwahoddwn ef i'n calonnau eto fyth y Nadolig hwn. Mae'n bryd agor y drws! Peidiwn â'i anwybyddu na'i gadw draw. Derbyniwn Ef yn llawen oherwydd dyma rodd fwyaf Duw i ni: Arglwydd ein bywyd, ceidwad ein calonnau.

'Canys bachgen a aned i ni, mab a roed i ni,' - do wir cofiwch!  
Rhown groeso iddo, dewn i'w addoli a'i goroni ef yn ben.

#### **Gwedd:**

Ein tad,  
Agor ein llygaid fel y gallwn weled yr Iesu yn gorwedd mewn preseb,  
Helpa ni i ymestyn ato, ei gyffwrdd a dweud inni ei garu,  
Agor ein clustiau a dysg inni wrando ar ei eiriau,  
Agor ein calonnau fel y gallwn roi ein bywydau yn gyfan iddo. Amen



## Myfyrdod 2: Ail Sul yr Adfent

---

“Gogoniant yn y goruchaf i Dduw,  
ac ar y ddaear tangnefedd ymhlith y rhai sydd wrth ei fodd. Luc 2:14

Wyddoch chi, mae yna rai pethau traddodiadol yr ydym yn eu derbyn yn ddi-gwestiwn. Rydym yn llafar iawn ein ‘Nadolig Llawen’, heb oedi rhyw lawer i ystyried beth yw gwir ystyr yr Ŵyl. “Wel, tydi’n gyfnod ac yn gyfle inni fwynhau cwmni’r teulu ar y diwrnod mawr!”, medd rhai. Ydy, mae’n dymor y goeden Nadolig, llygaid rhythgar y plant wrth iddynt ddisgwyl yn eiddgar am Siôn Corn, ac arogleuon hyfryd yn codi o’r gegin, a’r cardiau yn hongian yn osgeiddig ar rubanau. Ac uwchlaw’r cyfan daw’r carolau i’n swyno yn sŵn y band wrth y goeden ar y stryd fawr. Ydy, y mae’r cyfan hyn yn cyfrannu’n helaeth at yr ymdeimlad o gynhesrwydd ac agosatrwydd adeg y Nadolig. Eto i gyd, ac er mor dda yw hyn i gyd, mae’n gyfle inni nodi fod angen i ninnau aros am ennyd, oedi am ychydig i ystyried arwyddocâd yr ŵyl fawr Gristnogol hon i’n byd. Beth yw’r Nadolig mewn gwirionedd?

Bydd haneswyr, nad ydynt yn credu yng ngwedd ysbrydol yr ŵyl hon, o bosib yn awyddus i beidio cynnwys Stori Bethlehem a Phalestina yn y cwricwlwm o gwbl, heb sôn am ddysgu fod yna arwyddocâd ysbrydol i’r cyfan erbyn heddiw. Ond ni allant egluro grym a gallu bywyd Iesu. Pregethwr ac athro teithiol ydoedd, gyda’r ddawn arbennig i dynnu blewyn o drwyn yr awdurdodau crefyddol a seciwlar. Wedi cwta dair blynedd o weinidogaeth, cafodd ei gyhuddo ar gam a’i ddedfrydu i farw ar groes. Do, bu’n rhaid iddo farw, ac yntau yn ddiuog, wedi ei groeshoelio rhwng dau leidr. Eto, nis gwelodd y byd erioed ei fath byth wedyn, wedi preseb Bethlehem.

Pe bai’r anghrediniwr mwyaf yn cael ei stopio yng nghanol ei ymgais wyllt i brynu anrheg Nadolig munud olaf i’w gymar, ac yn cael ei holi, “Beth yw gwir ystyr Nadolig Bethlehem?” “Twt twt, lol ydio’i gyd – stori tylwyth teg, na’i gyd”, ddyweda i. Mewn byd lle mae masnacheiddiwch yr ŵyl wedi hen ddechrau ers canol Medi, ychydig sydd yn barod i gydnabod gwerth ysbrydol yr Ŵyl, gan ddweud mai ffuglen ddychmygol yw stori Bethlehem. Yn ein cyfnod soffistigedig, hunan dybus ni, bydd yr anghredadun yn barod iawn i wadu gwyrth y preseb ym Methlehem, ond ni all wadu dylanwad pellgyrhaeddol ugain canrif o wirionedd a ffydd a chred ddiysgog yn ein Gwardwr.

Y mae’r Beibl yn llafar iawn ynglŷn â gwir arwyddocâd y Nadolig. Dywed fod y Nadolig yn arwydd o gariad Duw, yn rhodd amhrisiadwy i’r ddynoliaeth, i’r bobl nad oeddynt yn haeddu’r fath rodd. ‘Canys felly y carodd Duw y byd...’

Dywed y Beibl fod y Nadolig yn ddatliad o’r hyn a fwriadodd Duw wrth roi i ni ei uniganedig Fab, i’n dysgu a’n argyhoeddi mai ‘cariad yw Duw’. Dywed amryw wrthym mai dyn da oedd Iesu, ac nid Mab Duw. Eto i gyd dengys hynny ddiffyg adnabyddiaeth o’r Iesu fel cyfaill, fel brawd, ac fel mab Duw... y dynol a’r duwiol wedi’i blethu yn gywrain ym mhersonoliaeth hawddgar a hynod Iesu. “Do,..., carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy’n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol. Oherwydd nid i gondemnio’r byd yr anfonodd Duw ei Fab i’r byd, ond er mwyn i’r byd gael ei achub trwyddo ef. (Ioan 3:16 -17).

Trwy eni Iesu mewn preseb ym Methlehem, rhoddodd Duw ei gynllun ar waith i waredu’r byd a’i bobl rhag effeithiau a chanlyniadau eu pechodau. Dyna pam yr anfonodd Duw ei angylion i gyhoeddi’r newyddion da o lawenydd mawr. Ymddangosasant gan lafar ganu rhai o’r carolau mwyaf prydferth a glywodd y byd erioed, gan osod esiampl i ninnau ei ddilyn yn ein canu carolau ninnau

heddiw. Pa ffordd well gawn ninnau i gyhoeddi dyfodiad ein Gwaredwr i'n byd nag ymuno i ganu carolau hen a newydd wrth ddathlu'n ffydd yn Nuw.

Beth a ddywedwn ninnau felly am arwyddocâd yr hyn a ddigwyddodd yn y stabl ym Methlehem dwy fil a mwy o flynyddoedd yn ôl erbyn hyn?

Dylai'r Nadolig fod yn gyfle inni adolygu'n ffydd yn Nuw, drwy ail gyfarwyddo'n hunain â hanes y Nadolig cyntaf. Onid dyma rydd obaith newydd yn ein calon, a gogwydd newydd ar fywyd ac ystyr bywyd tragwyddol. Beth am ein ffrindiau sydd yn parhau i wadu mai'r Crist yw mab Duw? Ai dyma yw bywyd iddynt yn ei hanfod, ddoe, heddiw a beth bynnag am yfory? Gobeithiwn na fydd hynny yn wir i ni, y Nadolig hwn.

Ni yw'r rhai sy'n byw dan ddylanwad y newyddion da a ddaeth i ni ar y Nadolig cyntaf.

Ni yw'r bobl sy'n credu i'r Iesu ddod i fyw yn ein calonnau drwy ffydd.

Ni yw'r bobl y dewisodd Duw ein defnyddio i adlewyrchu gwirionedd ac arwyddocâd preseb Bethlehem i'n byd.

Felly dewch inni ymddwyn mewn ffordd briodol, fel y gall pawb weld fod bywyd Iesu yn fyw yn ein bywyd ninnau; a'n bod ninnau yn credu fod y Nadolig yn ddathliad, ac yn goffadwriaeth deilwng o enedigaeth Crist, fel yr un a ddaeth i lawr i'r byd i warchod a diogelu'r rhai sydd wedi colli golwg ar lwybr ffydd, a chred, a chyffes. Yna, byddwn ninnau hefyd wrth fodd Duw!

### **Gwedd:**

Agor ein llygaid...

fel y gallwn weld arwyddocad dyfodiad Iesu i'n byd

Helpa ni...

i estyn allan at eraill gyda gwir neges y Nadolig, fel y gwnaeth Iesu i ni.

Agor ein clustiau...

fel y gallwn glywed cyffes a chredo ein cyfeillion yn y Ffydd.

Agor ein calonnau...

fel y gallwn roi mwy o groeso i Iesu i ganol ein bywydau  
dros gyfnod y Nadolig hwn. Amen.



